

Dydd Mercher, 2 Ebrill 2025

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 10fed Ebrill, 2025 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	1 - 2
4.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2025	3 - 18
5.	Cwestiynau Cyhoeddus	
5.1.	Cwestiwn a gyflwynwyd gan Anne Lynch <i>'Mae llais a rheolaeth - sy'n rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal ac yn rhoi llais iddo, a rheolaeth dros gyrraedd y canlyniadau sy'n ei helpu i gyflawni lles - yn un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</i> <i>O ystyried nifer y bobl - defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr - sydd wedi llofnodi ein deiseb, yn gofyn i ofal yn Ne Sir Fynwy aros gyda darparwyr lleol rhagorol, adnabyddus, a fyddai Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod llais y llofnodwyr hyn ac yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i barhau i dderbyn gofal gan y gofalwyr lleol hysbys y maent yn ymddiried ynddynt?'</i>	
5.2.	Cwestiwn a gyflwynwyd gan Jane Moore <i>Mae 93% o weithlu Lougher wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y</i>	

broses TUPE ac wedi dewis ymddeol neu chwilio am gyflogaeth arall i ffwrdd o faes gofal os na allant aros yn eu swydd bresennol gyda chwmni sy'n buddsoddi mewn staff lleol, defnyddwyr gwasanaethau lleol a'r gymuned leol.

A yw'r Cyngor wedi gwerthuso canlyniad y golled hon i'r gweithlu gofal a'r gymuned a pha fesurau y mae'r Cyngor yn eu gweithredu i leihau effaith negyddol y penderfyniad hwn ar y gymuned leol sy'n agored i niwed?

5.3. Cwestiwn a gyflwynwyd gan Joseph Taplin

A yw'r Cyngor wedi cynnal asesiad effaith llawn - cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd - ar yr hyn y byddai colli Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn ei olygu i'n cymunedau, ac os na, pryd y bydd yn ymrwymo i wneud hynny?

6. Adroddiadau i'r Cyngor

6.1. Adolygiad o'r Cyfansoddiad

19 - 364

6.2. Adolygiad Cyflog Uwch Arweinyddwyr

365 - 434

7. Cynigion Cynghorwyr:

7.1. Cyflwynwyd gan Gyngorydd Sir Jan Butler

Bod y cyngor hwn yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn ei wneud i economi Sir Fynwy.

Yn cydnabod bod iechyd a gweithrediad parhaus y gamlas yn hanfodol i lesiant ein trigolion a bod sicrhau ei dyfodol yn hanfodol i'r cymunedau sy'n ffynnu ar hyd ei llwybr.

Yn ei gwneud yn ofynnol i Arweinydd y Cyngor gynnull cyfarfod ar frys o'r holl sefydliadau allweddol i drafod datrysiad ac yn sicrhau bod pob Cyngorydd, gan gynnwys aelodau'r ward yr effeithir arnynt, yn cael gwybod am y datblygiadau.

7.2. Cyflwynwyd gan Gyngorydd Sir Lisa Dymock

Mae'r Cyngor hwn:

Yn nodi ymrwymiad y weinyddiaeth yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol i strategaeth gaffael gymdeithasol gyfrifol i hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau a geir yn lleol.

Yn galw ar y weinyddiaeth i gynnal adolygiad llawn a thryloyw o'i phrosesau caffael er mwyn sicrhau maes chwarae teg i fusnesau bach a lleol.

8. Cwestiynau'r Aelodau:

8.1. O'r Cynghorydd Sir Tomos Davies i'r Cynghorydd Sir Sarah Burch, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Tai a Thwristiaeth

Diweddariad ar Gynllun Teithio Egniol yr awdurdod, gan gynnwys datblygu pont gerddwyr Llan-ffwyst.

8.2. O'r Cynghorydd Sir Tomos Davies i'r Cynghorydd Sir Angela Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu

I gadarnhau nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd ledled Sir Fynwy yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys achosion o gerbydau oddi ar y ffordd.

8.3. O'r Cynghorydd Sir Tomos Davies i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

To confirm the number of fixed penalty notices issued for littering and fly tipping offences for the financial year 2024/25.

8.4. O'r Cynghorydd Sir Jackie Strong i'r Cynghorydd Sir Sarah Burch, Aelod y Cabinet dros Faterion Gwledig, Tai a Thwristiaeth

A all yr aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Sir Fynwy?

8.5. O'r Cynghorydd Sir Jayne McKenna i'r Cynghorydd Sir Angela Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu

Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda Heddlu Gwent a Thirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy i atal difrod i draciau a llwybrau?

8.6. O'r Cynghorydd Sir Jayne McKenna i'r Cynghorydd Sir Sarah Burch, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Tai a Thwristiaeth

Sut mae'r Cyngor yn sicrhau gwerth i drethdalwyr wrth gyflawni polisïau effeithiol i fynd i'r afael â digartrefedd?

8.7. O'r Cynghorydd Sir Tudor Thomas i'r Cynghorydd Sir Sarah Burch, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Tai a Thwristiaeth

Mae Ymddiriedolaeth y Gamlesi a'r Afonydd wedi mynegi pryder y bydd cyfyngiadau newydd a osodir ar ei gallu i echdynnu dŵr o Afon Wysg yn golygu y gallai camlas Sir Fynwy a Brycheiniog fod ar gau yn ystod misoedd yr haf, sef y misoedd brig i dwristiaeth Cymru wrth gwrs. Mae'r Gamlas yn atyniad twristiaeth mawr i ymwelwyr yn ogystal â'i gwerth i drigolion ac i fywyd gwyllt. Pa gamau fydd y weinyddiaeth yn eu cymryd i gefnogi'r busnesau twristiaeth a hamdden a allai gael eu heffeithio?

8.8. O'r Cynghorydd Sir Rachel Buckler i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

	Mae Cyngor Sir Fynwy yn derbyn adroddiadau rheolaidd am bontydd sydd angen eu hatgyweirio gan drigolion a chynghorwyr cymuned, ond mae pontydd wedi'u difrodi ac yn pydru, gyda llawer o bontydd mewn cyflwr peryglus. Mae'r pontydd hyn yn hanfodol i gysylltedd cymunedau yn Sir Fynwy wledig mewn ardaloedd fel Llangwm a'r cyffiniau. Beth all yr Aelod Cabinet ei wneud i sicrhau bod y rhwydweithiau ffyrdd hanfodol hyn yn cael eu cadw ar agor ac nad yw'r strwythurau hanesyddol arwyddocaol hyn mewn perygl o ddiflannu am byth?
8.9.	O'r Cynghorydd Sir Rachel Buckler i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd Mae cyflwr atgyweirio ffyrdd yn Sir Fynwy i'w weld ar bwynt argyfyngus. Anaml y mae adroddiadau rheolaidd gan Gynghorwyr Cymuned a thrigolion yn Ward Dyfawden yn arwain at lenwi tyllau yn y ffordd, clirio ceuffosydd a chadw rhigolau ar agor. Os caiff tyllau eu llenwi maent yn para am gwpl o wythnosau ac yna mae'r ffyrdd yn ôl i'r dechrau. Mae'r ffordd o Groesffordd Nantygelli i Lan-soe yn ward Dyfawden rwy'n ei chynrychioli yn enghraifft dda. Cyn bo hir, ni fydd hyd yn oed merlen a thrap yn gallu ei lywio. Beth fydd yr Aelod Cabinet yn ei wneud i newid cyfeiriad y trywydd trist hwn?

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
M. Newell
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddadl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifenwol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrandao ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.